CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

2006 Rhif 1262 (Cy.119)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2006

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2003 yn gymwys i ysgolion a gynhelir gan awdurdodau addysg lleol ac i ysgolion arbennig (os cynhelir hwy felly ai peidio). Maent yn darparu (ymysg pethau eraill) bod diwrnod ysgol sydd fel arfer i'w rannu'n ddwy sesiwn (gydag egwyl yn y canol), a bod ysgolion (heblaw ysgolion meithrin) yn cyfarfod am o leiaf 380 o sesiynau yn ystod unrhyw flwyddyn ysgol. Yr oedd rheoliad 5 o'r Rheoliadau hynny (rheoliad sydd bellach wedi darfod) yn darparu bod nifer benodedig o sesiynau ysgol yn y blynyddoedd ysgol 2003/4, 2004/5, 2005/6 a neilltuwyd ar gyfer ffurfiau penodedig o hyfforddi athrawon yn cael eu cyfrif yn sesiynau pan gyfarfu'r ysgol.

Mae'r Rheoliadau hyn yn amnewid rheoliad 5 newydd sydd, yn fras, yn darparu bod hyd at bedair sesiwn ym mhob un o flynyddoedd ysgol 2006/7 a 2007/8 yn cyfrif fel sesiynau pan gyfarfu'r ysgol os cawsant eu neilltuo i ddarparu ffurfiau penodol o hyfforddiant. Yn fras, y ffurfiau o hyfforddiant sy'n cyfrif yw hyfforddiant ynghylch-

- paratoi a gweithredu cynlluniau a anelir at hwyluso disgyblion i bontio rhwng cyfnodau allweddol a rhwng ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd (gan gynnwys, yn yr ail achos, y cynlluniau statudol y mae angen eu llunio o dan adran 198 o Ddeddf Addysg 2002),
- newidiadau sydd i ddod yn y Cwricwlwm Cenedlaethol, a
- cynlluniau'r Cynulliad ar gyfer ymestyn opsiynau dysgu ar gyfer pobl ifanc 14- 19 oed.

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

2006 No. 1262 (W.119)

EDUCATION, WALES

The Education (School Day and School Year) (Wales) (Amendment) Regulations 2006

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

The Education (School Day and School Year) (Wales) Regulations 2003 apply to schools maintained by local education authorities and to special schools (whether or not so maintained). They make provision (among other things) for a school day which is ordinarily to be divided into two sessions (with a break in the middle), and for schools (other than nursery schools) to meet for at least 380 sessions during any school year. Regulation 5 of those Regulations (which is now spent) provided for specified numbers of school sessions in the 2003/4, 2004/5, 2005/6 school years devoted to specified forms of teacher training to count as sessions on which the school met.

These Regulations substitute a new regulation 5 which, in broad terms, provides for up to four sessions in each of the 2006/7 and 2007/8 school years to count as sessions on which the school met if they were devoted to the provision of certain forms of training. Broadly, the forms of training which count are training relating to-

- the preparation and implementation of plans aimed at facilitating the transition of pupils between key stages and between primary school and secondary school (including, in the latter case, the statutory plans required to be drawn up under section 198 of the Education Act 2002),
- forthcoming changes in the National Curriculum, and
- the Assembly's plans for extending learning options for 14- 19 year olds.

2006 Rhif 1262 (Cy.119)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2006

Wedi'u gwneud	*3 Mai 2006*
Yn dod i rym	*1 Awst 2006*

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 551 a 569(4) a (5) o Ddeddf Addysg 1996(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2006 a deuant i rym ar 1 Awst 2006.

Diwygio Rheoliadau

2.-(1) Diwygir Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2003(**3**) fel a ganlyn.

(2) Yn adran 3, yn nhrefn briodol yr wyddor mewnosoder-

"mae "cyfnod allweddol" i'w ddehongli yn unol â "key stage" yn adran 103 o Ddeddf Addysg 2002"(**4**).

(**1**) 1996 p.56. Mewnosodwyd adran 551(1A) gan baragraff 39 o Atodlen 7 i Ddeddf Addysg 1997 (p.44), a diwygiwyd adran 551(2) gan baragraff 166 o Atodlen 30 ac Atodlen 31 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p.31). I gael ystyr "prescribed" a "regulations" *gweler* adran 579(1).

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i'r Cynulliad Cenedlaethol gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(**3**) O.S. 2003/3231 (Cy.311).

(**4**) 2002 p.32.

2006 No. 1262 (W.119)

EDUCATION, WALES

The Education (School Day and School Year) (Wales) (Amendment) Regulations 2006

Made	*3 May 2006*
Coming into force	*1 August 2006*

In exercise of the powers conferred on the Secretary of State by sections 551 and 569(4) and (5) of the Education Act 1996(**1**) and now vested in the National Assembly for Wales(**2**), the National Assembly for Wales hereby makes the following Regulations:

Title and commencement

1. The title of these Regulations is the Education (School Day and School Year) (Wales) (Amendment) Regulations 2006 and they come into force on 1 August 2006.

Amendment of Regulations

2.-(1) The Education (School Day and School Year) (Wales) Regulations 2003(**3**) are amended as follows.

(2) In regulation 3, in the appropriate alphabetical order insert-

"key stage" is to be construed in accordance with section 103 of the Education Act 2002"(**4**).

(**1**) 1996 c.56. Section 551(1A) was inserted by paragraph 39 of Schedule 7 to the Education Act 1997 (c.44), and section 551(2) was amended by paragraph 166 of Schedule 30 and Schedule 31 to the School Standards and Framework Act 1998 (c.31). For the meaning of "regulations" and "prescribed" *see* section 579(1).

(**2**) The functions of the Secretary of State were transferred to the National Assembly by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

(**3**) S.I. 2003/3231 (W.311).

(**4**) 2002 c.32.

(3) Yn lle rheoliad 5, rhodder-

"**5**.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), mae'r paragraff hwn yn gymwys i unrhyw sesiwn ysgol sy'n dod o fewn y blynyddoedd ysgol 2006- 2007 a 2007- 2008 a gaiff ei neilltuo (yn llwyr neu yn bennaf) i ddarparu unrhyw un neu fwy o'r ffurfiau canlynol o hyfforddiant (gan gynnwys hyfforddiant a fynychir gan staff sy'n addysgu a staff nad yw'n addysgu a hyfforddiant a gynhelir ar y cyd ag ysgolion eraill), sef-

(a) hyfforddiant mewn, neu mewn cysylltiad â, paratoi a gweithredu cynlluniau a anelir at hwyluso disgyblion i bontio rhwng un cyfnod allweddol i'r un nesaf neu o ysgol gynradd i ysgol uwchradd (gan gynnwys cynlluniau o'r fath y cyfeirir atynt yn adran 198 o Ddeddf Addysg 2002 os yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu'r ysgol, neu os yw'n disgwyl hynny, gymryd rhan mewn llunio cynllun o'r fath);

(b) hyfforddiant ynghylch newidiadau arfaethedig i Gwricwlwm Cenedlaethol Cymru(**1**);

(c) hyfforddiant ynghylch cynigion y Cynulliad Cenedlaethol sydd yn ei gylchlythyr 37/2004 o dan y teitl "Llwybrau Dysgu 14- 19"(**2**) ar gyfer ymestyn ystod yr opsiynau dysgu sydd ar gael i bobl ifanc 14- 19 oed (gan gynnwys datblygu rôl Anogwr Dysgu i gynorthwyo gyda dysgu pobl ifanc, a datblygu Cynllun Llwybrau Dysgu cynhwysfawr).

(2) Bydd paragraff (1) yn effeithiol o ran dim mwy na phedair sesiwn ysgol ym mhob un o'r blynyddoedd ysgol y mae'r paragraff hwnnw yn gymwys ar eu cyfer.

(3) Os bydd paragraff (1) yn gymwys o ran sesiwn ysgol, rhaid gweld y sesiwn honno at ddibenion rheoliad 4 fel sesiwn pan gyfarfu'r ysgol."

(3) For regulation 5 substitute-

"**5**.-(1) Subject to paragraph (2), this paragraph applies to any school session falling within the school years 2006- 2007 and 2007- 2008 which is devoted (wholly or mainly) to the provision of any one or more of the following forms of training (including training attended by both teaching and non-teaching staff and training conducted jointly with other schools), namely-

(a) training in, or in connection with, the preparation and implementation of plans aimed at facilitating the transition of pupils from one key stage to the next or from primary school to secondary school (including plans of the kind referred to in section 198 of the Education Act 2002 if the governing body of the school are, or expect to be, required by the National Assembly for Wales to participate in drawing up such a plan);

(b) training related to prospective changes to the National Curriculum for Wales(**1**);

(c) training related to the proposals of the National Assembly contained in its circular 37/2004 entitled "Learning Pathways 14- 19"(**2**) for extending the range of learning options available to 14-19 year olds (including developing the role of Learning Coach in supporting young people's learning, and developing a comprehensive Learning Pathways Plan).

(2) Paragraph (1) is to have effect in relation to no more than four school sessions in each of the school years in relation to which that paragraph applies.

(3) Where paragraph (1) applies in relation to a school session, that session is to be regarded for the purposes of regulation 4 as a session on which the school has met."

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**).

3 Mai 2006

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**3**).

3 May 2006

D. Elis-Thomas

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

(**1**) *Gweler* Rhan 7 o Ddeddf Addysg 2002.

(**2**) Gellir gweld y cylchlythyr hwn yn www.learning.wales.gov.uk.

(**3**) 1998 p.38.

(**1**) *See* Part 7 of the Education Act 2002.

(**2**) This circular may be accessed on www.learning.wales.gov.uk.

(**3**) 1998 c.38.

OFFERYNNAU STATUDOL

2006 Rhif 1262 (Cy.119)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2006

STATUTORY INSTRUMENTS

2006 No. 1262 (W.119)

EDUCATION, WALES

The Education (School Day and School Year) (Wales) (Amendment) Regulations 2006

©℗ Hawlfraint y Goron 2006

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2006

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£3.00

W299/05/06 ON